## Adroddiadau Estyn Ynys Môn Dadansoddiad SACRE

(Adroddiadau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 2023 – Mai 2024)

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Cyhoeddi Adroddiad Estyn</th></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Pencarnisiog</td><td>16/05/2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 196<br>- Disgyblion ysgol statudol 142 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 27<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.0% yw'r ganran genedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) 26.6%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (16.1%) yw canran genedlaethol y disgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) 28.9%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 15.8<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/01/2017<br>- Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 01/03/2015<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 19/06/2023</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Llandegfan</td><td>09/05/2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Math o ysgol gynradd<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 163<br>- Disgyblion ysgol statudol 122 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 20<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.7%) yw canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) 12.4%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (13.2%) yw canran genedlaethol y disgyblion a nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) 7.4%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 21.3%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/09/2017<br>- Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 07/12/2015<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 04/03/2024</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Rhosneigr</td><td>24/04/2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 85<br>- Disgyblion ysgol statudol 71 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin 7<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.7% yw'r ganran genedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) 18.7%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (13.2%) yw canran genedlaethol y disgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) 9.9%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 31%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/09/2015</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">- Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 10/11/2015<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 20/02/2024</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gymuned Y Ffridd</td><td>03/04/2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Math o ysgol gynradd<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 85<br>- Disgyblion ysgol statudol 67 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 10<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.7%) yw canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) 16.3%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Y ganran genedlaethol o ddisgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) 20.9%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 74.6%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/09/2011<br>- Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 01/01/2016<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 29/01/2024</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gymuned Bodffordd</td><td>18/12/2023</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Math o ysgol gynradd<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 88<br>- Disgyblion ysgol statudol 65 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 7<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros dair blynedd ar gyfartaledd (23.0% yw'r ganran genedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) 12.2%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Y ganran genedlaethol o ddisgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) 23.1%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 76.9%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/09/2000<br>- Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 11/05/2015<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 16/10/2023</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gymuned Llanerch-y-medd</td><td>11/12/2023</td></tr>
<tr><td colspan="2">- Iaith y darparwr Cymraeg<br>- Math o ysgol gynradd<br>- Nifer y disgyblion ar gofrestr 139<br>- Disgyblion ysgol statudol 105 oed<br>- Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 18<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.0% yw'r ganran genedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) 13.4%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (16.1%) yw canran genedlaethol y disgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) 36.2%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 67.6%<br>- Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0%<br>- Dyddiad penodi pennaeth 01/09/2017</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| - Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 21/09/2015<br>- Dyddiad dechrau arolygiad 09/10/2023 | |
| **Ysgol Gymraeg Morswyn** | 04/12/2023 |
| Iaith y darparwr Cymraeg<br>Math o ysgol gynradd<br>Nifer y disgyblion ar gofrestr 186<br>Disgyblion ysgol statudol 132 oed<br>Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) 26<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (23.0% yw'r ganran genedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) 11.8%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Y ganran genedlaethol o ddisgyblion a nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) 15.2%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg gartref 45.7%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 0.0%<br>Dyddiad penodi pennaeth 01/04/2013<br>Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) 01/04/2015<br>Dyddiad dechrau arolygiad 02/10/2023 | |

**Lles ac agweddau tuag at ddysgu**

- Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau a dangos empathi tuag at eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion wedi croesawu a chefnogi cyfoedion sydd wedi gorfod ffoi o'r rhyfel yn yr Wcrain. Drwy astudio'r treialon a'r gorthrymderau a wynebir gan Martin Luther King a Betty Campbell, maent yn dysgu am anghyfiawnder ac yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o faterion sy'n ymwneud ag ecwiti, cydraddoldeb a hawliau plant. (Ysgol Gynradd Kingsland)
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n ystyriol at elusennau amrywiol ac mae ganddynt syniadau pendant ynghylch pwy ddylai elwa o'u cyfraniadau. Er enghraifft, penderfynodd y cyngor ysgol roi rhodd i elusen cŵn tywys lleol yn dilyn gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. (Ysgol Gynradd Y Ffridd)
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol a gwybodus drwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Trwy eu hymchwil a'u trafodaethau synhwyrol, maent yn dechrau deall pwysigrwydd parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw sut maen nhw'n ymchwilio i fywyd yr arweinydd Martin Luther King a hanes yr actifydd Rosa Parks ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried beth sy'n cyfrannu at gymdeithas sy'n parchu hawliau dynol. (Ysgol Gymuned Bodffordd)
- Mae lles ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn gadarn oherwydd eu cyfranogiad brwdfrydig wrth ddatblygu eu sgiliau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfranwyr parod wrth ddatblygu eu sgiliau artistig. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn anturus wrth arbrofi yn llwyddiannus gydag amrywiaeth o gyfryngau, megis argraffu patrymau gwahanol i addurno Beibl yr Esgob William Morgan. (Ysgol Gymuned Bodffordd)
- Mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yn gynyddol. Maent yn dangos ymdeimlad cynyddol o empathi a thosturi tuag at eraill ac mae eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn trafod stori Malala Yousafzai a'i hymgyrch i sicrhau bod gan ferched yr hawl i gael addysg ym Mhacistan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o hawliau plant ac yn gallu esbonio sut mae'r rhain yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd eu hunain a bywydau pobl eraill. (Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd)

**Profiadau Dysgu ac Addysgu**

- Agwedd graidd o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd gwerthfawr sy'n cael eu darparu gan staff i hyrwyddo hunaniaeth, hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio hanes Ynys Llanddwyn a'r cysylltiad lleol â Santes Dwynwen. (Ysgol Gynradd Kingsland)
- Mae staff yn manteisio ar y cysylltiadau agos a buddiol sydd gan yr ysgol gyda nifer o grwpiau yn yr ardal leol, fel yr eglwys a'r capel. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn i bentref Llandegfan a gwybodaeth drylwyr am eu cynefin neu eu hardal leol. (Ysgol Gynradd Llandegfan)

**Gofal, Cymorth ac Arweiniad**

- Mae cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gynnal cyngerdd a chymryd rhan mewn parêd yng Nghaergybi. Mae pawb yn dathlu 'Siaradwr Cymraeg yr Wythnos' yn ystod gwasanaeth yr ysgol a threfnir ymweliadau addysgol lleol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol wrth ystyried ystod o grefyddau yn y gwasanaethau boreol ac yn ystod gwaith thema sy'n trafod, er enghraifft, Iddewiaeth a Hindŵaeth. (Ysgol Gynradd Kingsland)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth dda o'u treftadaeth Gymreig. O fewn gwasanaethau ysgol gyfan, mae disgyblion yn dysgu parchu arferion a moesoldeb gwahanol grefyddau. Er enghraifft, maen nhw'n cymharu Ramadan a'r Grawys yn dda ac yn trafod gwerthoedd ysbrydol Dewi Sant i helpu pobl eraill yn fedrus. Mae hyn yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. (Ysgol Gynradd Llandegfan)
- Staff yn llwyddo i ddatblygu agweddau moesol ac ysbrydol disgyblion yn dda. Er enghraifft, trwy gynnal cynulliadau addoli ar y cyd, maent yn pwysleisio pwysigrwydd parchu a helpu eraill. Daw disgyblion i barchu anghenion a sefyllfaoedd pobl eraill, er enghraifft trwy drefnu stondin yn y ffair haf i werthu nwyddau i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. (Ysgol Gynradd Y Ffridd)
- Mae'r ysgol yn defnyddio addoli ar y cyd yn llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cefnogi banc bwyd lleol drwy gasglu rhoddion yn nathliadau gŵyl y cynhaeaf. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion bod cefnogi ei gilydd yn bwysig mewn cymdeithas ofalgar. (Ysgol Gymuned Bodffordd)
- Mae trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy'n ymwneud â chredoau amrywiol, yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a'u gwerthoedd eu hunain. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Maent hefyd yn datblygu adroddiad ar Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd Hydref 2023 7 gwerth sy'n datblygu disgyblion i ddeall eu hanghenion a'u hawliau eu hunain a rhai pobl eraill. (Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol drwy ystod o gyfleoedd amrywiol. Er enghraifft, mewn cynulliadau, mae athrawon yn rhannu negeseuon am bwysigrwydd gofalu am y blaned. Mae athrawon yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn briodol a rhoddir pwyslais clir ar sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i bawb yng nghymuned yr ysgol. Mae llawer o weithgareddau a phrofiadau dysgu yn seiliedig ar barch ac empathi. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn lle gofalgar, cyfeillgar a chynhwysol. Mae'r pwyslais ar werthfawrogi amrywiaeth yn seiliedig ar yr egwyddor bod pawb yn gyfartal ac yn elfen ganolog o waith yr ysgol. (Ysgol Gymraeg Morswyn)

**Fframwaith Arolygu newydd**

- Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn bwrpasol. Er enghraifft, mewn cynulliadau torfol, darperir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig, gan gynnwys dangos caredigrwydd a pharchu hawliau pobl eraill mewn cymdeithas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o'r gwerthoedd hanfodol sy'n cyfrannu at eu datblygiad fel dinasyddion cytbwys a chyfrifol, gan gynnwys trin eraill â charedigrwydd a pharch. Mae'r ffordd y mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi ac yn gofalu am y disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl yn adlewyrchu hyn yn effeithiol. (Ysgol Gynradd Rhosneigr)